



Cymru Iachach:

ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Y Gronfa Trawsnewid

Dyma grynodeb o'r modelau sydd wedi'u cymeradwyo hyd yma drwy'r Gronfa Trawsnewid.

Nod y gronfa yw gwella gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol drwy ddatblygu'r modelau sy'n llwyddiannus a disodli'r rhai llai llwyddiannus neu rai sydd wedi dyddio. O ganlyniad, dylai pobl weld gwelliant yn eu gwasanaethau lleol.

Oherwydd pandemig COVID-19 mae pob rhanbarth wedi cwblhau adolygiad cyflym o'r prosiectau a gyflawnwyd yn eu hardal. Mae hyn wedi golygu bod adnoddau wedi'u dargyfeirio o fewn prosiectau i ddiwallu'r galw. Mae'r hyblygrwydd ym mhob un o'r rhanbarthau wedi bod yn amhrisiadwy i gefnogi'r ymateb i'r pandemig.

Crynodeb o'r prosiectau

1. Dull System-gyfan Clwstwr Cwm Tawe

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

Mae *Dull System-gyfan Clwstwr Cwm Tawe* yn cyflwyno model wedi'i drawsnewid, sef system iechyd a gofal cymdeithasol integredig ar gyfer yr ardal, dan arweiniad clwstwr. Mae rhwydwaith y clwstwr yn cynnwys Gwasanaethau Gwirfoddol Cyngor Abertawe, practisau meddygon teulu a rheolwyr tîm iechyd a gofal cymdeithasol integredig ac mae'n gwasanaethu Clydach, Treforys a Llansamlet.

Mae'r clwstwr wedi datblygu cynllun tair blynedd i wella iechyd a llesiant. Mae tri o'r pum practis meddygol teulu yn y clwstwr wedi uno â'i gilydd yn ffurfiol erbyn hyn.

Nod y prosiect yw:

- Gwella llesiant pobl o bob oed. Mae'r pwyslais allweddol ar hwyluso hunanofal a meithrin cadernid cymunedol. Bydd pwyslais hefyd ar y blynyddoedd cynharaf, gofalwyr ifanc a lles meddyliol.
- Cydlynu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod pobl yn gallu manteisio i'r eithaf ar lesiant, annibyniaeth a gofal yn nes at eu cartrefi. Byddai hyn yn cynnwys

rhoi'r gallu i'r Rhwydweithiau Clwstwr gynllunio, cydlynu a gweithredu gwasanaethau mewn partneriaeth â'r gymuned, gan ddiwallu anghenion y claf a'r gofalwr. Bydd pwyslais ar bobl hŷn er mwyn integreiddio gwasanaethau, arbrofi gyda modelau newydd o ofal yn nes at eu cartrefi, a lleihau ymweliadau annisgwyl â'r ysbyty.

2. Cyflwyno'r Dull System Gyfan i saith clwstwr **Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg**

Gan adeiladu ar y gwaith yng Nghwm Tawe, mae'r *dull system gyfan* yn cael ei gyflwyno i'r saith ardal clwstwr sy'n weddill. Bydd y prosiect yn sefydlu uchelgais i gynyddu cyflymder a graddfa'r broses o ddatblygu clystyrau'n gyfrwng i roi mwy o bwyslais ar hunanofal ac ataliaeth, integreiddio systemau iechyd a gofal cymdeithasol ar lefel leol a darparu gofal yn nes at y cartref – a hynny ar sail rhaglen a reolir.

Bydd hyn yn cyflymu'r broses o ddysgu am hwyluso cadernid cymunedol, cryfhau hunanofal a defnyddio asedau cymunedol sydd ar gael yn barod. Bydd yn gwella ac yn cyflymu'r ffodd y mae asiantaethau'n cydweithio. Ceir hefyd effaith gadarnhaol ar y llwybrau gwasanaethau clinigol ar gyfer ystod o gyflyrau cronig megis diabetes, methiant y galon, clefyd rhwystrol cronig yr ysgyfaint (COPD). Yn ogystal, bydd dull gweithredu newydd o ran darparu gwasanaethau a chael mynediad atynt – a hynny yn y gymuned leol lle bynnag y bo modd.

Nod y prosiect yw:

- Gwella llesiant pobl o bob oed. Bydd pwyslais ar gefnogi hunanofal a meithrin cadernid cymunedol. Bydd pwyslais hefyd ar grwpiau wedi'u targedu o fewn y boblogaeth, gan ddibynnu ar ddemograffeg y clystyrau.
- Cydlynu gwasanaethau i gefnogi llesiant, annibyniaeth a gofal yn nes at y cartref. Bydd hyn yn golygu bod y gallu gan y clystyrau i gynllunio, cydlynu a gweithredu gwasanaethau mewn partneriaeth â'r gymuned i ddiwallu anghenion y cleifion a'r gofalwyr. Bydd pwyslais arbennig ar bobl hŷn a gwasanaethau integredig, rhoi cynnig ar fodelau newydd o ofal yn nes at y cartref a lleihau nifer y derbyniadau annisgwyl i'r ysbyty.

3. Ein Cynllun Cymdogaeth

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gorllewin Morgannwg

Bydd y trydydd prosiect yng Ngorllewin Morgannwg, *Ein Cynllun Cymdogaeth* yn canolbwyntio ar wneud i wasanaethau weithio fel un system, drwy sicrhau bod staff ar draws pob asiantaeth yn cymryd rhan yn y broses o lunio'r newidiadau a'u rhoi ar waith. Bydd pwyslais ar adeiladu asedau o fewn cymunedau a grymuso pobl i roi cefnogaeth i aelodau eu cymunedau eu hunain yn hytrach na dibynnu ar wasanaethau statudol yn unig.

Nod y prosiect yw:

- Galluogi unigolion i fyw bywydau hirach a hapusach a chymryd mwy o reolaeth dros eu hiechyd a'u llesiant eu hunain. Bydd hyn yn cynnwys cefnogi eraill yn eu hardaloedd lleol drwy ddatblygu partneriaethau ag amrywiaeth eang o sefydliadau a phobl o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector a chymunedau er mwyn cefnogi pobl.
- Darparu iechyd a gofal drwy bobl sy'n gweithredu fel un tîm ac sy'n gweithio i sefydliadau sy'n gweithredu fel un tîm.

4. Fi, Fy Nghartref, Fy Nghymuned

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Caerdydd a Bro Morgannwg

Nod *Fi, Fy Nghartref, Fy Nghymuned* yw sicrhau gweithio di-dor yng Nghaerdydd a Bro Morgannwg. Mae'r prosiect hwn yn ddull graddol o wella iechyd y boblogaeth drwy system gydgyssylltiedig o bartneriaid cymunedol, y trydydd sector a'r sector annibynnol, gwasanaethau sylfaenol a gwasanaethau cymunedol. Bydd yr holl bartneriaid yn cydweithio i gefnogi cadernid unigolion, teuluoedd a chymunedau. Dylai hyn wella iechyd a llesiant pobl, drwy leihau'r angen am wasanaethau eilaidd mynd i'r afael â chanlyniadau iechyd sy'n deillio o unigrwydd a themlo'n ynysig a datgysylltiedig.

Nod y prosiect yw:

- Newid y ffordd y mae sefydliadau yn gweithio gyda'i gilydd mewn ysbytai. Er enghraifft bydd awdurdodau lleol yn gweithio gyda'r GIG i ddarparu mwy o gysylltiad dyddiol ar y wardiau. Dan *Get Me Home Plus* bydd pobl yn cael eu hasesu yn eu cartrefi ar ôl eu rhyddhau o'r ysbyty, yn hytrach na chael eu hasesu cyn eu rhyddhau. Bydd hyn yn rhoi gwell dealltwriaeth ynglŷn â'r gefnogaeth a'r addasiadau sydd eu hangen yn y cartref, a bydd yn galluogi pobl i ddychwelyd i'w cartrefi yn gyflymach ar ôl arhosiad mewn ysbyty. Bydd gofal cofleidiol yn y cartref yn cael ei ddarparu gan weithwyr iechyd proffesiynol, gofaluwr y gwasanaethau cymdeithasol, a gweithwyr

cymdeithasol.

- Datblygu gwefan llesiant er mwyn cysylltu gwasanaethau ar draws y gymuned a galluogi gweithwyr proffesiynol iechyd a gofal cymdeithasol i rannu gwybodaeth yn ddiogel am gleifion.
- Datblygu ac argymhell gofal yn y gymuned – er enghraifft, prosiectau garddio cymunedol, grwpiau cerdded, 'siediau dynion' a chaffis sgwrsio.
- Datblygu gweithlu llesiant. Yn ychwanegol at y rhagnodwyr cymdeithasol a'r swyddogion llesiant presennol, bydd staff mewn derbynfydd yn cael eu hyfforddi i ddarparu gwybodaeth ac i gysylltu pobl â gofalwyr gwirfoddol yn y gymuned.
- Nodi pobl sydd mewn perygl a'u cefnogi nhw yn weithredol i barhau i fod mor annibynnol ag sy'n bosibl. Mae hyn yn cynnwys creu gwell cysylltiadau rhwng ysbytai, meddygon teulu a fferyllwyr er mwyn sicrhau bod pawb yn cael gwybodaeth ynglŷn ag anghenion cleifion unigol pan maen nhw'n cael eu rhyddhau o'r ysbyty, a bod gan gleifion un pwynt cyswllt.
- Gweithredu timau amlddisgyblaethol, dan arweiniad meddyg teulu, er mwyn datblygu ac adolygu gwasanaethau.

5. Gweithredu System Ddi-dor o Ofal Iechyd a Llesiant Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gwent

Nod rhaglen Gwent yw creu fframwaith integredig o ofal di-dor yn seiliedig ar fodel o drawsnewid yn seiliedig ar le, gan gydnabod gwerth cydweithio amlasiantaeth rhwng iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector, addysg a phartneriaid tai. Mae pob rhaglen wedi'i haddasu i ymateb i anghenion cymunedol newydd o ganlyniad i bandemig COVID-19. Mewn rhai achosion, mae tystiolaeth o gyflymu gwaith partneriaeth i gynorthwyo gyda rheoli COVID-19 yn ddiogel a chefnogi ailstrwythuro a sefydlogi i'r dyfodol. Mae COVID wedi effeithio ar ddarpariaeth a byddai blwyddyn lawn o gyllid yn werthfawr i alluogi tystiolaeth glir i hysbysu datblygu rhaglenni.

- Rhwydweithiau Llesiant Integratig – wedi'u cynllunio i rwydweithio capasiti llesiant cymunedol i gefnogi ymyrraeth gynnar ac atal, mae'r tîm wedi cefnogi'r bobl hynny sy'n gwarchod ac yn ynysu, drwy ddefnyddio graddfa a chyrhaeddiad y rhwydweithiau ar draws Gwent.
- Gofal Seiliedig ar Le – tra bod ein gwaith peilot Cymunedau Tosturiol wedi'i atal dros dro, mae'r egwyddor gwaith amlddisgyblaeth ar gyfer ymarfer yn parhau i fod yn ased hanfodol i reoli COVID-19.

- HomeFirst- wedi'i gynllunio i brofi model integredig ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty, mae'r rhaglen hon wedi bod yn flaenllaw wrth gefnogi osgoi derbyniadau i'r ysbyty ar frig y pandemig, a bydd y profiad a'r dystiolaeth yn sgil hyn yn siapio model rhanbarthol a ffafir i'r dyfodol.
- ICEBERG- Gyda phlant a phobl ifanc wedi'u heffeithio yn fawr gan y cyfnod clo a chau ysgolion, mae rhaglen ICEBERG yn parhau i fod yn flaenllaw wrth ddatblygu ffyrdd newydd ac integredig o gefnogi plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i gael gwasanaethau a chymorth iechyd meddwl ac emosiynol. Mae platfformau rhithiol ar waith ac mae'r rhaglen Dull Ysgol Gyfan yn debygol o chwarae rhan arweiniol wrth gefnogi'r cyfnod pontio yn ôl i'r ysgol.

6. Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn y Gogledd

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gogledd

Nod y cyntaf o bedwar prosiect a gymeradwywyd yn y Gogledd, *Law yn Llaw at Iechyd Meddwl yn y Gogledd*, yw hyrwyddo lles meddyliol pobl yn yr ardal a sicrhau bod y rhai hynny sydd â phroblemau iechyd meddwl a salwch meddwl yn cael y gefnogaeth angenrheidiol pan fo'i hangen arnynt.

Nod y prosiect yw:

- Sefydlu fframwaith effeithiol ym mhob sir ar gyfer adnabod y bobl sydd fwyaf agored i niwed a defnyddio dull amlddisgyblaethol er mwyn osgoi argyfwng.
- Datblygu llwybr gofal argyfwng amlddisgyblaethol a fydd yn darparu gofal a chefnogaeth darbodus (yr ymateb iawn, ar yr adeg iawn ac yn y lle iawn) sy'n diwallu anghenion yr unigolyn.
- Ategu'r dull amlddisgyblaethol o ymdrin â gofal argyfwng drwy hyfforddi staff rheng flaen pob sefydliad ynglŷn â'u swyddogaethau a'u cyfrifoldebau er mwyn gwella'r ymarfer a'r profiad ar gyfer pobl mewn argyfwng, yn ogystal ag osgoi uwchgyfeirio.
- Yn annatod i'r llwybr adfer ar gyfer pobl, bydd y prosiect yn cyd-fynd â'r cynlluniau ar gyfer datblygu tai cefnogol yn y Gogledd a gwasanaethau allweddol nad ydyn nhw ar gael ar hyn o bryd.

7. Gwasanaethau Di-dor ar gyfer Pobl ag Anableddau Dysgu Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gogledd

Mae'r model *gwasanaethau di-dor ar gyfer pobl ag anableddau dysgu* yn ceisio helpu pobl ag anableddau dysgu i fyw'n fwy annibynnol a chael y gofal y maen nhw ei angen yn nes at y cartref drwy integreiddio iechyd, gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yn well.

Nod y prosiect yw:

- Datblygu gwell integreiddio o wasanaethau iechyd a gwasanaethau cymdeithasol.
- Datblygu'r gweithlu i greu gwell ymwybyddiaeth ynglŷn â materion anabledd ymysg y gweithlu ehangach yn y sector cyhoeddus. Dylai'r dull hwn leihau'r galw am wasanaethau anabledd dysgu arbenigol yn y dyfodol.
- Defnyddio technoleg gynorthwyol i helpu pobl ag anableddau dysgu i ddod yn fwy annibynnol.
- Rhoi newid cymunedol a diwylliannol ar waith drwy gynyddu nifer y bobl ag anableddau dysgu sydd mewn gwaith cyflogedig, mynediad at hyfforddiant a chyfleodd gwirfoddoli, gyda dulliau rhanbarthol mwy effeithiol ar gyfer presgripsiynu cymdeithasol.

8. Ymyrraeth Gynnar Integredig a Chymorth Dwys i Blant a Phobl Ifanc Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gogledd

Mae cyfleoedd dan y prosiect hwn i ddatblygu ei wasanaethau ymhellach er mwyn rhoi dulliau ar waith ar gyfer cael cymorth yn gynnar, a chynnig asesiadau a chymorth ymatebol a phrydlon er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i blant a phobl ifanc.

Drwy ddull system gyfan sy'n canolbwyntio ar y teulu, bydd y prosiect hwn yn trawsnewid cymorth ac ymyrraeth gynnar integredig. Bydd hyn yn cynnig y cymorth a'r dull cywir ar gyfer meithrin mwy o gadernid o fewn y teulu.

Nod y prosiect yw:

- Helpu i atal problemau rhag dwysáu drwy gynnig cymorth integredig prydlon – gan gynnwys dulliau newydd i gael help yn gynnar a chael cymorth therapiwtig.

- Sefydlu timau ‘asesu a chymorth’ sy’n darparu cymorth ymatebol, dwys sy'n meithrin cadernid yr unigolyn a'r teulu. Bydd hyn yn atal sefyllfaoedd cymhleth ac argyfyngus rhag dwysáu ymhellach.
- Cyflawni gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc gan leihau'r angen am ymyrraeth statudol ddrud a hirdymor.

9. Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gogledd

Mae'r rhaglen Trawsnewid Gwasanaethau Cymunedol yn ceisio datblygu model seiliedig ar le i ddarparu iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, drwy ddarparu gwasanaethau integredig di-dor yn lleol. Drwy'r dull hwn, bydd gwell canlyniadau i unigolion. Bydd y galw ar wasanaethau statudol wedi'i reoli'n well drwy ddatblygu dull cadarn a chysylltiedig sy'n canolbwyntio ar ymyrraeth gynnar. Bydd gwasanaethau llesiant ac ataliol yn cael eu darparu o fewn cymunedau cadarn a chryf.

Nod y prosiect yw darparu:

- Gwasanaethau cydgysylltiedig da a chymorth sy'n canolbwyntio ar yr hyn sy'n bwysig i bobl y Gogledd, gan sicrhau mynediad cyfartal at wasanaethau, a bod gwasanaethau'n cael eu darparu yn eu hiaith ddewisol.
- Help i bobl symud drwy'r system iechyd a gofal cymdeithasol, yn ogystal â chael mynediad at amrywiaeth o wasanaethau gofal a chymorth a fydd yn gwella eu hiechyd, eu llesiant a'u cadernid emosiynol.
- Cymorth i wella cynhwysiant digidol ymysg pobl ag anghenion iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mynediad at ystod o gymorth cymunedol, gofal ac ymyriadau therapiwtig.
- Cymorth i'r rheini sydd yng nghanol argyfwng, ar ddiwedd eu hoes ac sydd â chyflyrau iechyd parhaus.

10. Gorllewin Cymru Iachach

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol y Gorllewin

Mae Partneriaeth Gofal y Gorllewin yn dod â phartneriaid o lywodraeth leol, y GIG, y trydydd sector a'r sectorau annibynnol ynghyd gyda defnyddwyr a gofalgwyr. Y nod yw trawsnewid gwasanaethau gofal a chymorth drwy annog integreiddio, arloesi a newid gwasanaethau.

Nod y prosiect yw:

- Datblygu dull llesol ar gyfer pobl a staff, gan weithio ar draws y system iechyd a gofal gyfan, er mwyn gwella iechyd a llesiant pobl.
- Rhoi diogelwch ac ansawdd yn gyntaf fel y gall pobl fyw'n ddiogel yn eu cymunedau. Bydd unrhyw newidiadau i wasanaethau ysbytai a'r ffordd y mae gofal a thriniaeth yn cael eu cyflawni i'r boblogaeth yn cael eu rheoli yn ofalus gam wrth gam, gan flaenoriaethu diogelwch ac ansawdd a sicrhau nad yw newidiadau i wasanaethau'n gwneud unrhyw niwed.
- Cefnogi pobl i fyw yn annibynnol, lle gallan nhw reoli eu hiechyd a'u llesiant, gyda'r pwyslais ar eu cartrefi a'u hardaloedd lleol eu hunain. Mae hyn yn cynnwys cyflymu'r adferiad ar ôl triniaeth a gofal, a chefnogi hunanreolaeth o gyflyrau hirdymor. Gweithio gyda phartneriaid a staff allweddol i helpu i feithrin cadernid a chefnogi pobl i fyw yn well o fewn eu cymunedau eu hunain.
- Ymgysylltu'n barhaus gyda chymunedau ac unigolion er mwyn personoli a theilwra gwasanaethau iechyd a gofal at anghenion a hoffterau pobl a'u hardaloedd lleol, gan ganolbwyntio ar gefnogi pobl i reoli eu gofal a'u canlyniadau eu hunain.
- Gweithio gyda phartneriaid a staff ar draws yr holl system iechyd a gofal er mwyn datblygu gwasanaethau integredig lle nad yw gofal cymdeithasol, sylfaenol ac eilaidd yn cael eu gweld ar eu pennau eu hunain, ond eu bod yn cydweithio i ddarparu gwasanaethau. Byddan nhw'n ddi-dor ac yn gwella'r profiad i bobl drwy ddarparu gofal cydlynol, gwell, a llai cymhleth.
- Buddsoddi mewn staff ac archwilio atebion gweithlu arloesol er mwyn recriwtio, hyfforddi a chadw'r gweithlu gorau ar gyfer y Canolbarth a'r Gorllewin.

11. Sicrhau Powys Iach a Gofalgar

Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Powys

Bydd *Sicrhau Powys Iach a Gofalgar* yn helpu i ehangu modelau newydd ac arloesol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol di-dor yng ngogledd Powys.

Bydd Rhaglen Lesiant Gogledd Powys yn cyflawni newid sylweddol yn y ffordd y caiff gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol eu darparu, gan hyrwyddo llesiant, cymorth a chefnogaeth gynnar, a defnyddio cyfleoedd presgripsiynu cymdeithasol a gwyrdd. Mae'r rhaglen yn ceisio annog pobl i gymryd mwy o gyfrifoldeb dros eu llesiant eu hunain a chynllunio ar gyfer eu hanghenion iechyd yn y dyfodol.

Nod y prosiect yw:

- Galluogi dinasyddion, staff a phartneriaid i gymryd rhan weithgar yn y broses o gynllunio a rhoi'r model integredig newydd ar waith yng ngogledd Powys.
- Gwella cydraddoldeb y gwasanaeth i'r boblogaeth wledig drwy lwybrau iechyd a gofal integredig, gan gynnwys gwasanaethau wedi'u comisiynu gan siroedd cyfagos.
- Gwasanaethau amlasiantaethol cynhwysfawr sy'n canolbwyntio ar gymorth cynnar a dulliau o atal, a gwell dulliau dosbarthu yn ôl risg er mwyn gostwng nifer y derbyniadau brys.
- Cynyddu'r defnydd o wasanaethau ataliol er mwyn gostwng y nifer sy'n smygu, annog mwy i gymryd rhan mewn ymarfer corff, cynnal asesiadau risg wedi'u targedu ar gyfer pobl â chlefyd cardiofasgwlaidd a lleihau effaith ffactorau risg clinigol (sicrhau gwelliant o ran dal ati i gymryd meddyginiaethau).
- Galluogi mwy o bobl i fyw'n annibynnol ac aros yn y cartref yn ddiogel drwy dechnoleg sy'n helpu annibyniaeth a gofal; a gwaith mwy integredig i atal anghenion rhag gwaethygu a sicrhau ymyrraeth ar unwaith pan fo argyfwng.
- Sicrhau mwy o gysylltedd o ran gofal gan gynnwys timau cymdogaeth a chymunedau'n cydweithio i roi gwasanaeth di-dor i bobl pan fyddant ei angen.

12. Cwm Taf – Cadw'n Iach yn y Gymuned (*rhan 1*) Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

Mae Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg yn datblygu model iechyd a gofal cymdeithasol system gyfan ar gyfer y boblogaeth sy'n ymateb i lais yr unigolyn ar dair haen:

- Llesiant;
- Gofal integredig yn y gymuned, yn nes at gartrefi pobl;
- Iechyd a gofal cymdeithasol aciwt a gwasanaethau iechyd trydyddol.

Bydd yn canolbwyntio ar ddatblygu cynlluniau peilot sydd eisoes wedi arwain at fuddion amlwg yng Nghwm Taf, a'u cysylltu gyda'i gilydd. Y cynlluniau hyn yw:

- Haenu a gwahanu risgiau – mae'r peilot presennol yn cysylltu ac yn dadansoddi data gofal sylfaenol ac eilaidd i ddosbarthu'r boblogaeth yn y clwstwr yn grwpiau penodol yn seiliedig ar eu priodoleddau cyfun.

- Timau amlddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar glystyrau – cynhaliwyd cynllun peilot o ddull 'ward rithwir' yng Nghlwstwr Cynon. Mae dull amlddisgyblaethol yn helpu i leihau'r galw ar bractisau cyffredinol, yn ystod oriau'r feddygfa a'r tu allan i oriau, ac mewn adrannau brys.
- Cadw'n iach Gartref – mewn ymateb i'r pwysau cynyddol ar adrannau brys a'r heriau o ran llif cleifion, cyflwynwyd timau amlddisgyblaethol integredig yn adrannau argyfwng, unedau meddygol aciwt ac unedau penderfyniadau clinigol Ysbyty'r Tywysog Charles ac Ysbyty Brenhinol Morgannwg.
- Canfod canser yn gynnar – yn unol â Rhaglen Diagnosis Cynnar o Ganser y Bwrdd Iechyd, mae cynllun peilot o'r Clinig Diagnosis Cyflym wedi'i gynnal yng Nghwm Taf ers mis Gorffennaf 2017.

Wrth i'r model barhau i ddatblygu a phrofi system newydd o wasanaethau di-dor ar y raddfa briodol, bydd gwerthuso a lledaenu'r rhain yn ffurfiol yn galluogi rhoi prosiectau ar waith yn gyflym mewn rhanbarthau eraill. Bydd hyn yn grymuso staff ar lefel clwstwr ac ardal leol i drawsnewid eu ffordd o weithio a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu.

Pen-y-bont ar Ogwr - Cyflymu newid ar gyfer ein Gwasanaethau Integredig (rhan 2) Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Cwm Taf Morgannwg

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr a Bwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg (sydd bellach yn rhan o Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg) wedi datblygu modelau a dulliau integredig ac ar y cyd ar gyfer gwasanaethau cymunedol i oedolion, mewn partneriaeth gyda Chymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae hyn yn seiliedig ar ymyriadau cynnar rhagataliol i sicrhau bod pobl yn cael ymateb prydlon sy'n gymesur â'u hanghenion, ac sy'n hyrwyddo eu hannibyniaeth, eu llais a'u dewisiadau.

Nod y prosiect yw:

- Sicrhau mynediad saith niwrnod yr wythnos at wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn y gymuned – “dydd Mawrth yw pob dydd”, gan ddarparu dewisiadau gwasanaeth amgen estynedig i ofal yn yr ysbyty a gofal hirdymor.
- Dull tîm amlddisgyblaethol mewn gofal sylfaenol a chymunedol; defnyddio dull 'un tîm' sy'n canolbwyntio ar bobl, gan gydlyn ymatebion y clwstwr gofal sylfaenol a gwasanaethau cymunedol.
- Datblygu a sicrhau cymunedau cryf a chydlynus; a'r sefydliadau allweddol, ynghyd â'u partneriaid a'r gymuned y maent yn eu gwasanaethu yn datblygu

buddion drwy gydweithio i roi dulliau ataliol ar waith a fydd yn gwella llesiant poblogaeth Pen-y-bont ar Ogwr.

Dyma grynodedb o fodolau cenedlaethol sydd wedi cael eu cymeradwyo drwy'r Gronfa Trawsnewid.

1.Gofal Arennol Cydweithredol ar gyfer Cymru Iachach Sefydliad Cyflawni: Rhwydwaith Clinigol Arennol Cymru

Mae gwasanaethau arennol ledled Cymru yn cael eu cydlynu a'u comisiynu gan Rwydwaith Clinigol Arennol Cymru, sydd wedi bod yn feiddgar o ran ei weledigaeth gydweithredol ar gyfer newid. Mae'r Rhwydwaith wedi creu'r mecanwaith i gyflawni'n genedlaethol drwy fodel cyflawni rhanbarthol. Ei weledigaeth yw sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei drawsnewid drwy ei ddigideiddio drwy lwyfan sengl.

Mae rhaglen trawsnewid digidol ar gyfer Cymru gyfan yn cynnig cyfle go iawn i gyflawni'r addewid a nodwyd yn Cymru Iachach. Mae'r model yn cynnig gweithlu a grŵp cleifion sydd a'r gallu i weithio'n ddigidol i nodi, atal a rheoli clefyd yr arenau ar draws Cymru. Bydd digideiddio gweithrediadau'r canolfannau arennol yn:

- Galluogi ymyrraeth gynnar
- Darparu gofal mwy diogel
- Cefnogi unigolion i fod yn annibynnol
- Rhoi llais i bobl
- Cynnig gofal arbenigol personol
- Troi gwasanaeth tameidiog yn wasanaeth di-dor
- Sicrhau gwerth llawer gwell am arian
- Casglu data ar adeg rhoi gofal er mwyn llunio'r dystiolaeth

Nod y model Gofal Arennol Cydweithredol ar gyfer Cymru Iachach yw gwella ansawdd gofal, galluogi pobl i ofalu amdanynt eu hunain, nodi clefyd cronig yn yr arenau yn y boblogaeth a'i atal rhag gwaethygu a sicrhau bod gwasanaethau arennol yn gynaliadwy yn y tymor hir.

2. Rhaglen Hemodialysis yn y Cartref

Sefydliad Cyflawni: Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe.

Mae'r rhaglen Hemodialysis yn y Cartref yn galluogi cleifion sydd â chlefyd cronig yn yr arennau i ofalu amdanynt eu hunain drwy gydgyhyrchu. Mae'r rhaglen hon, sydd wedi'i datblygu gyda chleifion, ar gyfer cleifion, yn rhoi'r rheolaeth yn ôl i'r cleifion drwy ganiatáu iddynt reoli eu triniaeth gartref. Mae hyn yn hyrwyddo annibyniaeth, yn ei gwneud yn haws i gleifion gael triniaeth, yn caniatáu i gleifion i fod yn rhan o'r gymdeithas unwaith eto ac i ddychwelyd i'r gwaith o bosibl.

Bydd grŵp gorchwyl amlddisgyblaethol yn datblygu ac yn ehangu rhaglen dros nos i ddarparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf. Bydd y grŵp yn sefydlu tîm amlddisgyblaethol rhagorol, gan symleiddio hyfforddiant therapi yn y cartref, ac felly caniatáu i unedau eraill roi'r rhaglen ar waith. Y bwriad yw hysbysebu'r arbenigedd sy'n datblygu er mwyn cymell unedau dialysis eraill i wneud yr un peth ac i'r rhaglen ddatblygu'n rhaglen genedlaethol. Y nodau yw:

- Sefydlu rhaglen hyfforddi arloesol, trosglwyddadwy i rannu manteision hemodialysis dros nos gyda chleifion sydd â chlefyd cronig yn yr arennau.
- Gwella ansawdd gwasanaethau sy'n arwain yn uniongyrchol at well canlyniadau i gleifion yn y grŵp hwn o bobl â chyflwr iechyd cronig a gostyngiad sylweddol mewn costau.
- Cynyddu nifer y bobl sy'n cael hemodialysis yn y cartref a lleihau'r baich ar unedau mewn ysbytai ac unedau ategol sy'n darparu dialysis, gan leihau'r angen i ehangu a darparu unedau dialysis newydd costus.
- Lleihau amser teithio cleifion drwy ddileu'r angen iddynt wneud sawl taith rhwng cyfleusterau dialysis a'u cartref.

3. Gwasanaethau Optometreg yn Seiliedig ar Glystyrau

Sefydliad Cyflawni: Addysg a Gwella Iechyd Cymru

Mae'r model gwasanaethau optometreg yn seiliedig ar glystyrau yn ariannu lleoedd addysg a lleoliadau mewn sefydliadau gofal eilaidd i optometryddion er mwyn darparu gofal i gleifion yn nes at eu cartref. Mae hwn yn ddull unigryw o gynnig lleoliadau hyfforddi ar gyfer cymwysterau lle mae optometryddion yn gweithio mewn gwasanaethau glawcoma a gwasanaethau aciwt mewn ysbytai gyda chontract gyda'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol. Drwy sicrhau bod cymwysterau'n cael eu cynnig i optometryddion sy'n gweithio ym mhob clwstwr yng Nghymru, a thrwy hynny sicrhau darpariaeth genedlaethol, mae'r model yn targedu gostyngiad yn y galw am ofal eilaidd ledled Cymru. Nodau cyffredinol y model yw:

- Rheoli gofal cleifion yn nes at eu cartref
- Gwella profiad a boddhad cleifion Gwella gwasanaethau i gleifion mewn ysbytai llygaid drwy:
 - Ryddhau capasiti gofal eilaidd mewn gwasanaethau Dirywiad Macwlaidd Gwlyb sy'n Gysylltiedig â Henaint
 - Rhyddhau capasiti gofal eilaidd ar gyfer cleifion allanol mewn gwasanaethau glawcoma
 - Rhyddhau capasiti gofal eilaidd ym maes argyfyngau llygaid.
- Gwella llwybrau gyrfa optometryddion, y broses o'u recriwtio a'u cadw a'r defnydd a wneir ohonynt.
- Ymestyn y capasiti mewn clinigau gofal llygaid ar gyfer cleifion allanol mewn ysbytai pan fo optometryddion ar leoliad yn y clinigau hyn.

Diwedd